



YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL CLWYD-POWYS
CLWYD-POWYS ARCHAEOLOGICAL TRUST

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol
Polisi a Chanllawiau i Ddefnyddwyr



COFNOD
AMGYLCHEDD HANESYDDOL
CLWYD-POWYS

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg ar bolisiau sydd a wnelo â chyrchu Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Clwyd-Powys [CAH CPAT], y mae Gwasanaethau Cyngori ar yr Amgylchedd Hanesyddol, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yn ei gynnal. Mae'n cynnwys cyflwyniad i'r cofnod, ein polisi gwybodaeth a chofnodi (beth rydym yn ei gofnodi), ein polisi gwasanaethau gwybodaeth a chyrchu data (sut i gyrchu ein cofnodion), gan gynnwys ar gyfer defnyddwyr masnachol, a'n polisiau cadwraeth ddigidol, gwirfoddolwyr ac allgymorth.

Mae wedi'i pharatoi yn unol â Chyfarwyddyd Cenedlaethol, yn enwedig:

- Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio
<https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/20170523HERs%20in%20Wales%20Compilation%20and%20Use%20-%20CYM.pdf>
- Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Safonau a Meincnodau
<https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/20170531Historic%20Environment%20Records%20in%20Wales%20Standards%20and%20Benchmarks%2026919%20CY.pdf>

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi gan staff y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Caiff ei diwygio'n flynyddol i adlewyrchu newidiadau.

Diwygiwyd ddiwethaf: 15/06/2021. F.1.1.

Cysylltu â'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r CAH yn uniongyrchol trwy ddefnyddio'r manylion isod:

E-bost: her@cpat.org.uk

Ffôn: 01938 552670

Y Swyddfeydd, Coed-y-Dinas, Y Trallwng, SY21 8RP, Y Deyrnas Unedig

<https://cpat.org.uk/cy/cofnod-yr-amgylchedd-hanesyddol/>

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Beth ydy CAH?	4
Gwasanaethau Gwybodaeth	4
Defnyddwyr y CAH	4
Polisi cyrchu data a chodi ffi	5
Cyrchu'r CAH	5
Amseroedd Agor y CAH	5
Ymholiadau Masnachol	6
Cynnwys a Chwmpas	7
Cwmpas Daearyddol y CAH	7
Amodau Defnyddio	8
Cyflwyno Data i'r CAH	10
Polisi Cadwraeth Ddigidol	11

Cyflwyniad

Beth ydy CAH?

Cronfa ddata ac archif gwybodaeth am safleoedd a phrosiectau o ddi-ddordeb archaeolegol a hanesyddol o fewn ardal Clwyd-Powys yw Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) Rhanbarthol CPAT. Mae gennym ni gofnodion o safleoedd archaeolegol o bob cyfnod, yn amrywio o'r anheddu dynol cynharaf yng Nghymru i nodweddion cymharol gyfoes fel strwythurau milwrol yr Ail Ryfel Byd. Mae gennym ni wybodaeth am strwythurau ac Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig, manau darganfyddiadau unigol a nodweddion archaeolegol eraill, yn amrywio o safleoedd cyfarwydd y mae llawer o bobl yn ymweld â nhw i nodweddion tirwedd llai amlwg fel cloddiau caeau a marciau amaethu.

Mae gan yr ardal y mae'r CAH yn ei chwmpasu gyfoeth o hanes ac archaeoleg. Mae gan ein cronfa ddata gofnodion o fwy na 150,000 o safleoedd a phrosiectau, ac mae'n cael ei diweddarau'n barhaus. Bob dydd, mae ymchwil a gwaith maes proffesiynol, prosiectau academaidd a darganfyddiadau'r cyhoedd yn taflu goleuni ar wybodaeth newydd am yr adnodd archaeolegol. Mae pob un o'n hawdurdodau lleol wedi mabwysiadu'r CAH ac mae eu cyfarwyddiaethau cynllunio'n ei ddefnyddio.

Gwasanaethau Gwybodaeth

Defnyddwyr y CAH

Mae grwpiau defnyddwyr proffesiynol yn cynnwys:

- Athrawon, darlithwyr, academyddion ac archaeolegwyr a haneswyr proffesiynol sy'n defnyddio'r CAH yn rheolaidd at ddibenion addysgu ac ymchwil.
- Rheolwyr treftadaeth a chefn gwlad mewn sefydliadau cenedlaethol fel Llywodraeth Cymru, Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru.
- Gweithwyr proffesiynol amgueddfeydd, llyfrgelloedd a thwristiaeth.
- Mae ymgynghori â'r CAH a'i staff hefyd o fudd i awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr, cwmnïau cyfleustodau, ymgynghorwyr, contractwyr a chyfreithwyr. Yn achos awdurdodau lleol, mae cytundebau lefel gwasanaeth yn bodoli ar gyfer darparu gwasanaeth cyfnewid data CAH a gwasanaethau eraill yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r awdurdodau lleol yn gwneud cyfraniad ariannol blynyddol tuag at y Gwasanaethau hyn. Yn gyfnewid, mae'r Ymddiriedolaeth yn caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio'r rhan o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol sydd a wnelo â'r awdurdod lleol perthnasol, iddo ei defnyddio'n fewnol at ddibenion busnes arferol.

Grwpiau defnyddwyr cyhoeddus

Nod arall y CAH yw gwasanaethu'r cyhoedd, yn unigolion ac yn grwpiau, sydd efallai'n gwneud ymchwil breifat neu ymchwil i hanes teuluol, a phrosiectau cymunedol. Anogir archaeolegwyr a haneswyr amatur, a myfyrwyr ar lefel is-raddedig ac ôl-raddedig, i ddefnyddio'r cofnod ar gyfer eu hymchwil a'u hastudiaethau. Gall ffermwyr a thirfeddianwyr ddarganfod lleoliad safleoedd archaeolegol hysbys ar eu tir, a dysgu mwy amdany'n nhw.

Mae pob un o'r 'grwpiau defnyddwyr' uchod yn cyfrannu at gyfoethogi'r CAH trwy anfon gwybodaeth am waith maes perthnasol, ymchwil newydd, darganfyddiadau diweddar a hanesion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol.

Polisi cyrchu data a chodi ffi

Cyrchu CAH CPAT

Gallwch chi gyrchu'r CAH yn y cawd neu o bell. Defnyddiwch y manylion isod i


gysylltu â ni: Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Clwyd-Powys

E-bost: her@cpat.org.uk

Ffôn: 01938 552670

Y Swyddfeydd, Coed-y-Dinas, Y Trallwng, SY21 8RP, Y Deyrnas Unedig

At ddibenion anfasnachol, mae elfennau detoledig o'r CAH ar gael ar [Archwilio](#). Dyma ydy'r system ar-lein i gyrchu Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru. Mae wedi'i datblygu trwy bartneriaeth rhwng pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru i ddarparu mynediad cyhoeddus ehangach i'r adnodd gwerthfawr hwn. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymchwilio i'ch ardal leol, neu ddarganfod mwy am gyfnod hanesyddol penodol, mae hwn yn lle da i ddechrau.



Amseroedd Agor CAH CPAT

Dydd Llun – Dydd Gwener: 9:00am – 5pm

Trwy apwyntiad ymlaen llaw yn unig.

Gwasanaethau sydd ar gael yn swyddfeydd y CAH

- Cyfleusterau llungopïo
- Mynediad i gasgliad cyfeirio'r CAH o gopïau caled o fapiau/ ffotograffau/ awyrluniau/ deunydd cyfeiriol/ cyfnodolion/ adroddiadau
- Goruchwyliaeth a chyfarwyddyd arbenigol

Yn y mwyafrif o achosion, mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, heblaw am gostau llungopïo ac ati. Fodd bynnag, yn achos ymgynghoriadau masnachol, codir ffi am amser staff.

Ymweld

Mae angen trefnu apwyntiad gan fod y lle a'r staff yn gyfyngedig.

Os y byddwch chi'n dewis ymweld â'r CAH yn y cawd, mae gennym ni le gweithio, cyfrifiadur a sganiwr ar gael ichi eu defnyddio. Bydd staff y CAH yn eich cynorthwyo ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r offer, os y byddwch chi'n dewis eu defnyddio, a gallan nhw wneud y llungopïo a'r sganio ar eich cyfer. Bydd staff y CAH hefyd yn cynorthwyo â chyrchu'r adnoddau copïau caled sydd yn y CAH.

Dros y ffôn, trwy'r post neu e-bost

Os na allwch chi ymweld yn y cnaud, gallwch chi ofyn i ni chwilio'r system ar eich rhan. Gallwch chi gysylltu â ni trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein yn https://cpat.org.uk/docs/HER-Docs/new_her_enquiry.html?language=cy. Gallwn ni yna anfon canlyniadau'r chwiliad mewn fformat electronig.

Ymholiadau Masnachol

Y gyfradd codi ffi sylfaenol ar gyfer ymholiadau masnachol eu natur yw £100 + TAW yr awr neu unrhyw ran o awr. Yr isafswm ffi fydd £100 + TAW. Cyn belled â bod staff ar gael, darperir canlyniadau fel rheol o fewn 5 diwrnod gwaith. Mae gwasanaeth â blaenoriaeth ar gael gyda chyfradd codi ffi o £130 + TAW yr awr neu unrhyw ran o awr. Yr isafswm ffi fydd £130 + TAW. Cyn belled â bod staff ar gael, darperir canlyniadau o fewn 2 ddiwrnod gwaith.

Yn achos ymholiadau masnachol neu ymholiadau mwy, rydym yn darparu gwybodaeth sylfaenol mewn fformat CSV (ar gyfer Microsoft Excel) a SHP (Esri shapefile). Rydym hefyd yn darparu dogfen HTML a PDF sy'n rhoi manylion y disgrifiadau llawn ar gyfer yr holl safleoedd a restrir. Os oes angen data arnoch chi mewn unrhyw fformat arall a fydd yn galw am amser ychwanegol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid codi ffi ychwanegol.


Defnyddiwch y ffurflen yn https://cpat.org.uk/docs/HER-Docs/new_her_enquiry.html?language=cy i gyflwyno'ch ymholiad.



Ffigur 1: Bryngaer Caer Digoll o'r awyr, sydd dan berchnogaeth Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar hyn o bryd.

Cwmpas daearyddol CAH CPAT

Yn ddaearyddol, mae'r cofnod yn cwmpasu cyn siroedd Clwyd a Phowys (gogledd-ddwyrain, dwyrain a chanolbarth Cymru). Ers llunio'r cofnod yn y 1970au, mae'r siroedd wedi'u rhannu yn awdurdodau unedol Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam a Phowys. Mae'r cyfrifoldeb am Gonwy wedi'i rannu rhwng Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys (CPAT) ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (GAT), gyda CPAT yn cwmpasu dwyrain Conwy. Deallir mai'r 17 gymuned i'r dwyrain o linell, sef Llandrillo-yn-Rhos – Mochdre – Betws-yn-Rhos - Llangernyw – Pentrefoelas – Cerrigydrudion, yw'r rhain.




Ffigur 2: Yr ardal ddaearyddol y mae Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Clwyd-Powys yn ei chwmpasu.


Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Amodau Defnyddio

1. Fel rheol, bydd modd cyrchu gwybodaeth sydd yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol unrhyw amser rhesymol. Yn yr achos cyntaf, gofynnir i Ddefnyddwyr lenwi ffurflen gais sy'n amlinellu'r wybodaeth sydd ei hangen arny'n nhw a'r rheswm dros eu hymholiad. Gellir cael ffurflenni trwy ffonio, ysgrifennu neu fynd i wefan yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol berthnasol. Os nad yw'n bosibl ateb yr ymholiad ar unwaith, dylai Defnyddwyr ddisgwyl cael gwybod pryd ac ar ba ffurf y gellir rhoi'r wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud ymholiadau ar wahân i bob CAH unigol os yw'r ymholiad yn ymwneud â mwy nag un rhanbarth.
2. Gwrthodir cyrchu gwybodaeth yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol os ystyrir y bydd ei rhyddhau yn rhoi'r adnodd archaeolegol mewn perygl. Bydd gofyn i Ddefnyddwyr ddatgan dibenion y wybodaeth y gwneir cais amdani, addo y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio at y diben a ddatganwyd yn unig, ac na fydd yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig y CAH rhanbarthol. Fe allai camddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael arwain at erlyniad neu waharddiad rhag cyrchu unrhyw un o'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol. Dylai Defnyddwyr sicrhau y ceisir cyngor archaeolegol arbenigol ar effeithiau posibl unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar yr adnodd archaeolegol.
3. Gwneir ymdrechion rhesymol i ddilysu'r wybodaeth a gynhwysir yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol, ond bydd Defnyddwyr yn gyfrifol am wirio bod y wybodaeth yn gywir. Mae cofnodion yn y CAH wedi'u llunio o nifer o ffynonellau amrywiol, rhai ohonyn nhw o bosibl heb eu dilysu. Mae'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol yn croesawu cael gwybod am unrhyw wallau.
4. Caiff gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig y mae'r Defnyddiwr yn ei rhoi ac sy'n cael ei gosod yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol ei thrin yn briodol. Dylid rhoi gwybod i'r CAH am unrhyw wybodaeth o'r fath pan gyflwynir hi.
5. Caiff gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig a gynhwysir yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol ei chadw yn ôl oni bai bod Defnyddwyr wedi sicrhau caniatâd priodol ymlaen llaw.
6. Mae hi i fyny i'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol unigol benderfynu a yw Defnyddwyr yn cael cyrchu'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol yn uniongyrchol ai peidio. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau'n golygu y gall Defnyddwyr adalw gwybodaeth eu hunain yn y CAH, er fel rheol y bydd yn fwy priodol cael cymorth staff yr Ymddiriedolaeth.
7. Bydd disgwyl i Ddefnyddwyr Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol ufuddhau i'r holl gyfyngiadau hawlfraint a chyfyngiadau cyfreithiol eraill a allai fod yn berthnasol i wybodaeth a ddelir yn y cofnod. Gall cofnodion ategol gynnwys deunydd y mae sefydliadau eraill yn cadw'r hawlfraint arno. Mae Deddf Diogelu Data 1998 hefyd yn rheoli rhyddhau rhai mathau penodol o wybodaeth. Dylid darllen y ddogfen ['Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru'](#) i weld y manylion ynglŷn â Hawlfraint a chydabyddiaeth.
8. Mae'n bosibl y cyfyngir ar swm y wybodaeth a ryddheir i unrhyw un Defnyddiwr. Cyfyngir ar y swm os yr ystyrir bod yna berygl y gallai hyn arwain at ddefnydd direolaeth o rannau sylweddol o'r cofnod neu at sefydlu cronfa ddata gystadleuol ac anrheoledig. Mae'n bosibl y bydd gofyn i Ddefnyddwyr hefyd lofnodi cytundeb trwydded cyn y gellir rhyddhau data.
9. Bydd gofyn i Ddefnyddwyr gydnabod eu bod wedi defnyddio'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol mewn unrhyw ddogfen neu adroddiad cyhoeddedig. Dylid darllen y ddogfen ['Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru'](#) i weld y manylion ynglŷn â Hawlfraint a chydabyddiaeth.
10. Mae disgwyl i Ddefnyddwyr sicrhau bod unrhyw wybodaeth newydd neu ddiwygiedig ar gael i'w chynnwys yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol, o fewn cyfnod amser rhesymol. Perchir pwysigrwydd cyhoeddi gwybodaeth newydd pan fydd y cyfrannwr yn gofyn am hyn. Dylid darllen y ddogfen ['Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru'](#) i weld y manylion ynglŷn â chynnwys a fformat cofnodion ac ynglŷn â'u cyflwyno.


11. Codir ffi fel rheol i adennill costau gwasanaethu pob ymholiad. Nid yw'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol yn gwneud elw, ond dylai Defnyddwyr ddisgwyl talu ffi resymol fel rheol am gostau darparu gwybodaeth. Gan fod ymholiadau'n gallu amrywio'n fawr, nid yw'n briodol pennu graddfa ffioedd benodol. Os yw'n debygol y bydd yn galw am gryn dipyn o waith, dylai'r Defnyddiwr ofyn am amcangyfrif o'r costau ymlaen llaw. Codir taliadau fel rheol ar sail adennill costau, er ei bod yn bosibl y bydd taliadau am ymholiadau anffurfiol neu'r rheini sy'n galw am ymchwil bur yn cael eu lleihau neu eu hepgor yn llwyr (pan yr ystyrir a fydd y Defnyddiwr yn sicrhau bod gwybodaeth newydd neu ddiwygiedig ar gael i'w chynnwys yn y CAH). Bydd y ffioedd a godir ar gyrrff neu unigolion sy'n gwneud gwaith sy'n fasnachol ei sail fel rheol yn cael eu seilio ar gostau llawn, gan gynnwys costau cyflogau staff. Dylid mynd ar ofyn Ymddiriedolaeth unigol i gael eu strwythur codi ffioedd llawn a'u cyfraddau adennill costau am ddarparu ac atgynhyrchu gwybodaeth.



Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru (CAH)



**Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
Gorffennaf 2018**



Figur 3: *Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru*

Cyflwyno data i CAH CPAT

Gellir adneuo data o ganlyniad i waith archaeolegol ac ati gan ddefnyddio System Ar-lein Adneuo Data Cofnod Amgylchedd Hanesyddol [HEDDOS] yn <https://cpat.org.uk/heddos.html?language=cy> neu drwy e-bost i her@cpat.org.uk.

Gwelwch Gyfarwyddiadau Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru ar gyfer Cyflwyno Data i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru (CAH) sydd ar gael yn y [Gymraeg](#) a'r [Saesneg](#) wrth gyflwyno data i Gofnod Amgylchedd Hanesyddol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys.

Gall aelodau unigol o'r cyhoedd hefyd gyflwyno gwybodaeth am safleoedd unigol gan ddefnyddio Arolwg123 ArcGIS trwy https://arcg.is/1uzSGO_

Anfon cofnod newydd i CAH CPAT

Ffurflen cyflwyno cofnod newydd ar gyfer Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

Disgrifiad*
Nodwch unrhyw elfennau disgrifiadol y gallwch chi eu hychwanegu am y nodwedd, nad yw yn y CAH ar hyn o bryd, gan gynnwys dimensiynau. Gall hyn gynnwys sylwadau am siâp, uchder/ dyfnder, deunyddiau neu berthynas â nodweddion cyfagos neu'r dirwedd.

1000

Lleoliad*
Nodwch unrhyw elfennau o'r dehongliad y gallwch chi am y nodwedd, nad yw yn y CAH ar hyn o bryd. Gallai hyn gynnwys sylwadau ar hunaniaeth y nodwedd, ei phwrpas neu ei dyddiad.

1000

Lleoliad*
Rhowch leoliad y safle hwn, mor agos â phosibl.

Find address or place

NORTH EUROPE

Ffigur 4: Cyflwyno neu ddiweddarau gwybodaeth mewn cofnodion newydd a phresennol CAH.

Polisi Cadwraeth Ddigidol

Gall deunydd sy'n llunio rhan o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol gynnwys cofnodion papur a digidol, ffeiliau ategol, a gwaith wedi'i gyhoeddi a heb ei gyhoeddi sy'n rhan o'r casgliadau cyfeirio ategol. Sylwch fod archifau archaeolegol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys y tu hwnt i gylch gwaith Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Clwyd-Powys. Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys, yn hytrach na'r CAH, sy'n gyfrifol am yr archif archaeolegol hwn yn gyffredinol ac mae hyn yn cael sylw ym Mholisi Archifau Archaeolegol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys.

Trwy ddiffiniad, mae Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn casglu ac yn storio gwybodaeth a drefnir yn systematig am amgylchedd hanesyddol ardal benodol. Yn anochel, mae hyn yn golygu y bydd yn caffael casgliadau parhaol o gofnodion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Mae llawer o'r deunydd hwn yn llunio'r ffeiliau ategol a ffeiliau eraill sy'n cefnogi'r CAH digidol. O bryd i'w gilydd, mae'r CAH hefyd yn derbyn deunydd archif Sylfaenol y mae cyrff anfasnachol neu unigolion preifat yn ei adneuo a chaiff hwn ei drosglwyddo i archif achrededig, os yn bosibl mewn 'ystorfa ddigidol y gellir ymddiried ynddi' ar gyfer cadwraeth hirdymor. Yr adnewr sy'n gyfrifol am gadwraeth hirdymor data y mae cyrff masnachol yn eu hadneuo.

Polisiâu Gwaredu

- Caiff deunydd archif Sylfaenol y mae cyrff anfasnachol neu unigolion preifat yn ei adneuo â'r CAH ei drosglwyddo i archif achrededig, os yn bosibl mewn 'ystorfa ddigidol y gellir ymddiried ynddi' ar gyfer cadwraeth hirdymor.
- Cedwir cofnodion digidol o unrhyw ddeunydd y mae CAH CPAT yn ei drosglwyddo i archif.
- Caiff deunydd a drosglwyddir i archif ei gopïo'n ddigidol os ystyrir bod hynny'n briodol.